Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 2721 (Cy.232)

PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

CADWRAETH PYSGOD MÔR

Gorchymyn Gwahardd Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) 2009

Gwnaed - - - -	*7 Hydref 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*8 Hydref 2009*
Yn dod i rym - -	*1 Tachwedd 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 5(1), 5A(1), 15(3) a 20(1) o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

(**1**) 1967 p.84. Disodlwyd adran 5(1) gan Ddeddf Pysgodfeydd 1981 (p. 29), adran 22(1). Mewnosodwyd adran 5A gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p.25), adran 103(1). Disodlwyd adran 15(3) gan Ddeddf Pysgodfeydd Môr 1968 (p.77), adran 22(1), Atodlen 1, Rhan II, paragraff 38(3) a'i diwygio gan Ddeddf Terfynau Pysgodfeydd 1976 (p.86), adran 9(1), Atodlen 2, paragraff 16(1) a'i diwygio ymhellach gan O.S. 1999/1820, erthygl 4, Atodlen 2, Rhan 1, paragraff 43(1) a (2)(b). *Gweler* adran 22(2) i gael y diffiniadau o "*the Ministers*". Cafodd adran 22(2) ei diwygio gan Ddeddf Pysgodfeydd 1981, adrannau 19(2)(d), a 45(a), (b) ac (c), a 46(2), Atodlen 5, Rhan II a chan O.S. 1999/1820, erthygl 4, Atodlen 2, paragraff 43(1), (12) a Rhan IV a chan Ddeddf Cyfansoddiad Gogledd Iwerddon 1973, adran 40, Atodlen 5, paragraff 8(1).

(**2**) Yn rhinwedd erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672) trosglwyddwyd y swyddogaethau sy'n arferadwy o dan adrannau 5, 5A, 15 a 20 o Ddeddf 1967 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (fel y'i cyfansoddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38)) i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru (gan weithredu'n gyfamserol â'r Ysgrifennydd Gwladol o ran adran 15(3)). Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny o Gynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.